Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

**Briff Polisi**
Awst 2023

# Deall cost prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd

## Cyd-destun yr ymchwil

Cynhaliwyd yr ymchwil hon yn ystod gwanwyn a haf 2023. Ers hynny, mae'r cyd-destun economaidd (yn cynnwys pwysau chwyddiant) wedi newid, ac mae'r rhaglen i gyflwyno prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM) wedi'i chwblhau. Mae'r nodyn hwn yn adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ei ysgrifennu, ar ddechrau Awst 2023.

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru yn cyflwyno prydau ysgol am ddim i'r holl blant o oed ysgol gynradd yng Nghymru yn rhan o'r Cytundeb Cydweithio rhwng Llafur Cymru a Phlaid Cymru (Llywodraeth Cymru, 2021a). Dechreuodd y broses hon ym mis Medi 2022 ar gyfer disgyblion y dosbarth Derbyn a bwriedir ei chwblhau ar gyfer holl ddisgyblion ysgolion cynradd erbyn Medi 2024 ar yr hwyraf, sef dyddiad terfyn arfaethedig y Cytundeb Cydweithio.

Yn rhan o'r broses cyflwyno, cytunodd Llywodraeth Cymru ar gyfradd fesul uned o £2.90 y pryd ar gyfer darparu prydau ysgol am ddim i holl blant ysgolion cynradd (UPFSM). Yng ngolwg y cynnydd mewn costau, cytunwyd y dylai'r gyfradd hon gael ei hadolygu. Gofynnodd Llywodraeth Cymru i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru edrych ar y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddarparu UPFSM er mwyn deall yn well ble mae'r pwysau ar gostau yn y system ac i gyfrannu at drafodaethau am y gyfradd fesul uned yn y dyfodol.

## Yr ymchwil a gynhaliwyd

Comisiynwyd Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth (CIPFA) i gydweithio â ni i edrych ar y costau y mae awdurdodau lleol yn eu hwynebu wrth ddarparu prydau ysgol. Anfonwyd holiadur at swyddogion cyllid ym mhob un o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru yn gofyn ble'r oedd costau'n dod yn ddyledus a sut maent wedi newid.

Roeddem wedi casglu data am flynyddoedd ariannol 2019/20 (fel llinell sylfaen cyn y pandemig) a 2022/23 (i gael gwybodaeth am y cynnydd presennol mewn costau ac am gam cyntaf y rhaglen i gyflwyno UPFSM). Cynlluniwyd yr holiadur ar y cyd â chymheiriaid yn Llywodraeth Cymru a rhoddwyd prawf arno gydag awdurdodau lleol cyn ei ddosbarthu. Roedd y cam ymchwil hwn wedi para rhwng Mawrth a Mehefin 2023. Yn ogystal â hyn, roeddem wedi cynnal ymchwil ddesg ar gyllid prydau ysgol a'r ffactorau sy'n rheoli costau yn y system prydau ysgol.

Mae'r briff polisi hwn yn crynhoi'r canfyddiadau o'r ymchwil hon.

## Sut mae prydau ysgol yn cael eu hariannu a'u darparu

Yn gyffredinol, mae prydau ysgol yn cael eu darparu ar sail awdurdodau lleol yng Nghymru. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, mae adran arlwyo gan yr awdurdod lleol sy'n darparu prydau ar ran ysgolion. Mae rhai awdurdodau lleol yn defnyddio modelau eraill, fel gosod y ddarpariaeth ar gontract i gwmni preifat neu ddefnyddio cwmni arlwyo hyd braich sy'n eiddo i'r awdurdod lleol.

Ar gyfer disgyblion o oed ysgol gynradd, mae tair prif ffordd ar hyn o bryd i dderbyn prydau ysgol, pob un ohonynt yn gysylltiedig â ffrwd gyllido neu ffrwd refeniw wahanol:

- Prydau ysgol am ddim seiliedig ar gymhwystra (eFSM), i ddisgyblion sy'n gymwys un ai am fod eu rhieni'n derbyn budd-daliadau penodol yn gysylltiedig ag incwm ac yn ennill incwm sy'n is na throthwy penodol, neu am eu bod yn dod o dan drefniadau amddiffyn wrth bontio;
- Prydau am dâl y telir amdanynt yn uniongyrchol gan rieni neu warcheidwaid, a'r refeniw ohonynt yn mynd tuag at gwrdd â chostau'r gwasanaeth arlwyo;
- UPFSM.

Bydd UPFSM yn cymryd lle prydau am dâl wrth barhau â'r rhaglen i'w cyflwyno.

Ar hyn o bryd, mae prydau eFSM yn cael eu hariannu drwy gyllidebau sydd wedi'u gosod gan yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu bod swm o arian yn cael ei ddyrannu i adrannau arlwyo er mwyn talu am gost y ddarpariaeth statudol o brydau ysgol.

Caiff UPFSM ei ariannu drwy ddyraniad cyllideb ychwanegol ar ben y cyllid grant i ysgolion, ar gyfradd fesul uned o £2.90 y pryd ysgol.[1]

> **Ym Mai 2023, roedd prisiau bwyd wedi cynyddu 26% yn gronnol o gymharu â lefelau cyn y pandemig**

## Pwysau ar gostau: canfyddiadau o'r ymchwil ddesg

Ar hyn o bryd, mae economi'r DU yn mynd drwy gyfnod o chwyddiant uchel parhaus a sylweddol. Roedd y gyfradd chwyddiant yn ôl y mynegai prisiau defnyddwyr yn 7.9% yn y 12 mis hyd fis Mehefin 2023 (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023). Cafwyd cynnydd o 17.3% ym mhrisiau bwyd a diodydd dialcohol dros yr un cyfnod. Ym Mai 2023, roedd prisiau bwyd wedi cynyddu 26% yn gronnol o gymharu â lefelau cyn y pandemig (Dey-Chowdhury ac Ubovic, 2023). Er ei bod yn ymddangos bod lefel chwyddiant (yn gyffredinol ac ym mhrisiau bwyd a diodydd dialcohol) wedi cyrraedd ei hanterth bellach o bosibl a'i bod yn dechrau gostwng, mae cyfradd chwyddiant yn uchel o hyd yn ôl safonau hanesyddol diweddar ac mae prisiau'n sylweddol uwch o gymharu â normau cyn y pandemig.

Mae nifer o achosion wedi'u hawgrymu i egluro'r lefel chwyddiant uchel. Mae'r rhain yn cynnwys newidiadau yn gysylltiedig â'r pandemig COVID-19 ac effeithiau'r rhyfel yn Wcráin, ymysg eraill. Mae rhywfaint o'r chwyddiant yn deillio o gynnydd yn y galw (yn enwedig mewn perthynas â symudiadau cychwynnol yn y farchnad ynni yn dilyn y pandemig COVID-19) ond mae'r chwyddiant presennol yn ganlyniad i raddau helaeth i gyfyngu ar gyflenwadau.



O ran darparu prydau ysgol, rhai o'r prif ffactorau sy'n cynyddu costau yw:

- Cynnydd yng nghost ynni. Mae hyn yn cynnwys effeithiau uniongyrchol yn ogystal â rhai anuniongyrchol. Ymysg yr

[1] Nid oeddem wedi ymchwilio i weld a oedd yr incwm o ddarparu prydau yn ddigon i gwrdd â chostau. Ers paratoi'r adroddiad hwn, mae'r gyfradd fesul uned wedi cynyddu i £3.20 am bob pryd.

effeithiau uniongyrchol y mae cynnydd sylweddol mewn prisiau: roedd cwsmeriaid annomestig wedi gweld cynnydd cyfartalog mewn prisiau o 41% ar gyfer trydan a 46% ar gyfer nwy rhwng pedwerydd chwarter 2021 a phedwerydd chwarter 2022, heb gynnwys yr ardoll newid hinsawdd (Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net, 2023).

- Effeithiau anuniongyrchol o'r cynnydd ym mhrisiau ynni. Er enghraifft, roedd cost gwrtaith, a gynhyrchir drwy ddefnyddio nwy naturiol, wedi cynyddu'n sylweddol yn 2022. Yn achos mewnforion o amoniwm nitrad, roedd prisiau wedi cynyddu 185% mewn blwyddyn yn sgil yr ymosodiad ar Wcráin, er bod prisiau'n gostwng bellach i'r lefelau lle'r oeddent ar ddechrau 2022 (Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth, 2023).
- Marchnad lafur dynn gyda chynnydd yng nghostau cyflogau. Yn y sector amaethyddol, roedd rhai cnydau heb eu cynaeafu oherwydd prinder llafur (Dey-Chowdhury ac Ubovic, 2023). Ymysg arlwywyr mewn ysgolion, roedd 74% wedi nodi diffyg ymgeiswyr am swyddi gwag (LACA, 2022). Roedd cyflogau yn y sector lletygarwch wedi cynyddu 9.5% yn y flwyddyn hyd fis Mai 2023, yn fwy na'r cyfartaledd cenedlaethol (Gosden, 2023), ac mae un arolwg wedi dangos bod 78% o arlwywyr mewn ysgolion yn credu bod costau staffio yn un o'r ffactorau a oedd yn cael yr effaith fwyaf ar brisiau (Hacking, 2023).
- Amharu ar gyflenwadau bwyd o ganlyniad i'r rhyfel yn Wcráin, yn enwedig olew blodau'r haul a gwenith (Emediegwu, 2022).
- Rhwystrau heblaw am dariffau a gafwyd o ganlyniad i Brexit, a all roi cyfrif am oddeutu 30% o'r cynnydd ym mhrisiau bwyd rhwng Rhagfyr 2019 a Mawrth 2023 (Bakker et al., 2023).
- Effeithiau cysylltiedig â'r tywydd sy'n cynnwys sychder ac oerni annhymhorol mewn rhannau o Ewrop a Gogledd Affrica (Dey-Chowdhury ac Ubovic, 2023). Roedd hyn wedi arwain at brinder yn y cyflenwad o rai eitemau yn ogystal â phrisiau uwch.

Mae costau ynni yn parhau'n uchel o gymharu â lefelau hanesyddol, er eu bod wedi gostwng yn sylweddol o'u lefel uchaf. O ran cwsmeriaid domestig, mae rhagolygon diweddar yn awgrymu ei bod yn bosibl y bydd y cap ar brisiau yn aros yn sefydlog ar oddeutu £2,000 y flwyddyn drwy weddill 2023 – yn is o lawer na'r cyfraddau yng ngaeaf 2022/23 ond cryn dipyn yn uwch na'r lefel yn 2021/22 (Bolton, 2023). Ar ben hynny, mae'n bosibl y bydd cyflenwyr masnachol wedi'u rhwymo i gyfraddau penodedig uwch a gytunwyd yn ystod yr argyfwng ynni yn 2022, gan fod 13% o gwmnïau bach wedi cytuno ar gyfraddau penodedig pan oedd y farchnad ynni yn ei hanterth (Ffederasiwn Busnesau Bach, 2023).

Mae'n bosibl bod y gyfradd chwyddiant ym mhrisiau bwyd yn dechrau arafu. Er bod prisiau bwyd wedi cynyddu 17.3% yn y flwyddyn hyd fis Mehefin 2023, roedd hyn yn is na'r gyfradd o 18.3% ym mis Mai ac 19.1% ym mis Mawrth (Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, 2023; Dey-Chowdhury ac Ubovic, 2023). Mae prisiau nwyddau bwyd yn gostwng ar lefel fyd-eang hefyd: roedd Mynegai Prisiau Bwyd y Sefydliad Bwyd ac Amaeth yn sefyll ar 122.3 o bwyntiau ym Mehefin 2023, 23.4% yn is na'i lefel uchaf erioed ym Mawrth 2022 (Y Sefydliad Bwyd ac Amaeth, 2023).

Bydd yn cymryd peth amser fel arfer i ostyngiadau ym mhrisiau cynhyrchu gael eu hadlewyrchu yn y prisiau i ddefnyddwyr o ganlyniad i ffactorau fel contractau cyfnod penodol, neu fewnbynnau fel prisiau uwch am wrtaith a brynwyd ar gyfer y cynhaeaf eleni (Banc Lloegr, 2023). Y disgwyliad gan Fanc Lloegr yw na fydd gostyngiad ym mhrisiau bwyd, dim ond arafu yng nghynnydd prisiau, barn a ategwyd gan nifer mewn diwydiant (Banc Lloegr, 2023; Butler, 2023).

O ran costau staffio, mae bron y cyfan (95.7%) o'r arlwywyr awdurdod lleol yn y DU a holwyd yn talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol o £10.90 yr awr yn hytrach na'r Cyflog Byw Cenedlaethol (sydd yn is) (Hacking, 2023). Gan fod y Cyflog Byw Gwirioneddol yn cael ei gyfrifo ar sail costau byw, mae'n debygol o gynyddu eto wrth i gostau byw gynyddu.

> **Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol wedi rheoli costau'n dda hyd yn hyn**

Felly, mae'r canfyddiadau hyn o'r ymchwil ddesg yn awgrymu y dylem ddisgwyl bod costau arlwywyr ysgolion wedi cynyddu, a'i bod yn bosibl iawn y bydd costau'n aros yn uchel yn y dyfodol agos.

## Canfyddiadau o'r holiadur i awdurdodau lleol

Cawsom 16 o ymatebion i'n holiadur, yn cyfateb i 73% o'r 22 o awdurdodau lleol yng Nghymru. At ei gilydd, roedd yr ymatebion yn rhai cynrychiadol o ran daearyddiaeth, gwledigrwydd a niferoedd y disgyblion, ac roedd yr awdurdodau mwyaf a lleiaf wedi'u cynrychioli. Er hynny, dylid nodi bod rhai awdurdodau lleol sydd â'r niferoedd mwyaf o ddisgyblion a/neu y niferoedd mwyaf o ddisgyblion yn derbyn prydau eFSM wedi methu â dychwelyd holiaduron.

Roedd mwyafrif yr awdurdodau yn yr arolwg yn defnyddio model arlwyo mewnol, er bod dau yn gosod y gwasanaeth ar gontract i gwmnïau preifat ac un yn defnyddio gwasanaeth arlwyo hyd braich sy'n eiddo i'r awdurdod lleol.

Cynhaliwyd ein hymchwil mewn cyd-destun economaidd cyfnewidiol, a bydd angen dadansoddi ac ymchwilio ymhellach i'r data a gawsom. Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol wedi dehongli, cofnodi ac adrodd data mewn ffyrdd gwahanol, fel ei bod yn bosibl bod amrywiadau rhwng awdurdodau lleol yn ganlyniad i wahaniaethau o ran adrodd yn gymaint â dangos gwahaniaethau gwirioneddol rhwng modelau darparu neu nodweddion sy'n seiliedig ar leoedd.



Rydym yn disgwyl y bydd ffactorau eraill, ar ben gwahaniaethau o ran cofnodi ac adrodd costau, wedi effeithio ar y data a gawsom. Er enghraifft, am fod y broses o gyflwyno UPFSM yn parhau, mae'n bosibl nad oedd ffigurau manwl gywir ar gael pan ofynnwyd amdanynt (neu eu bod wedi'u cynnwys yn y ffigurau am gyfanswm y prydau ysgol am ddim, er enghraifft), a bod rhai awdurdodau lleol wedi gorstaffio ym mlwyddyn academaidd 22/23 wrth baratoi i gwblhau'r broses o gyflwyno UPFSM yn 23/24. Yn ogystal â hyn, gwyddom fod anawsterau o ran trin data CYBLD (y cyfrifiad ysgolion) ar gyfer Ionawr 2023 yn ei gwneud yn anodd dibynnu ar ddata sy'n seiliedig ar y rhifau hyn. Felly, dylid cymryd bod ein canfyddiadau'n rhai dangosol yn hytrach na rhai diffiniol. Am y rhesymau hyn, nid ydym wedi adrodd ar gostau penodol yn y papur hwn.

Roedd data yn dangos amrediad sylweddol rhwng awdurdodau lleol, a'r costau cyffredinol yn amrywio o 43% yn is i 36% yn uwch na'r cyfartaledd.

Roedd y rhan fwyaf o'r gwariant (64%) ar gostau staff, gyda'r ddarpariaeth o fwyd yn dod i 24% a chostau eraill (categori sy'n cynnwys costau ynni) yn dod i 11%.[2] Mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu ei bod yn bosibl bod costau bwyd yn cynyddu fel cyfran o gyfanswm

[2] Mae'r ffigurau hyn wedi'u cyfrifo heb gynnwys awdurdodau lleol sy'n defnyddio cyflenwyr preifat lle mae'r rhan fwyaf o'r costau'n gysylltiedig â'r contract.

y costau am fod chwyddiant ym mhrisiau bwyd yn parhau i gynyddu'n gynt na chwyddiant yn yr economi gyfan.

Mae'n ymddangos bod awdurdodau lleol wedi rheoli costau'n dda hyd yn hyn, a bod y gost am ddarparu ciniawau wedi cynyddu 10% rhwng 2019 a 2023 o gymharu â chynnydd o 15% mewn prisiau yn yr economi ehangach. Fodd bynnag, nid yw'n glir a fydd yn parhau fel hyn yn y dyfodol. Mae'r ffigur hwn yn celu amrywiadau sylweddol: yn yr awdurdod lleol lle cafwyd yr effaith waethaf, roedd costau wedi cynyddu 31% dros y cyfnod hwn; tra oedd un awdurdod lleol wedi llwyddo i leihau costau 16% wrth weini mwy o brydau a sicrhau arbedion maint drwy hynny.

## Casgliad

Rydym wedi canfod tystiolaeth bod y costau i awdurdodau lleol am ddarparu ciniawau yn cynyddu, a bod pwysau chwyddiant a chynnydd yng nghostau byw yn golygu bod prisiau'n debygol o gynyddu ymhellach yn y dyfodol agos.

Am fod cyfnod yr ymchwil yn fyr a'r data a gawsom yn anghyflawn, ni fu'n bosibl nodi'r union gostau a wynebwyd gan awdurdodau lleol mewn ffordd ddibynadwy. Fodd bynnag, mae ein hymchwil yn dangos bod y darlun ledled Cymru yn un cymhleth a fydd yn galw am ragor o ymchwilio ac eglurhad. Yn benodol, bydd yn fuddiol cynnal yr ymchwil hon dros gyfnod hirach ac ar ôl cyflwyno UPFSM mewn rhagor o grwpiau blwyddyn, er mwyn deall yn fwy manwl y costau sy'n gysylltiedig â'r polisi a chytuno ar y sefyllfa gyllidol ar gyfer y dyfodol.

## Cyfeiriadau


Bakker, J.D., Datta, N., Davies, R., a De Lyon, J. (2023). **Brexit and consumer food prices: 2023 update**. Centre for Economic Performance. Adalwyd o https://cep.lse.ac.uk/pubs/download/brexit18.pdf

Banc Lloegr. (2023). **Monetary Policy Report – May 2023**. Adalwyd o https://www.bankofengland.co.uk/monetary-policy-report/2023/may-2023

Bolton, P. (2023). **Gas and electricity prices under the Energy Price Guarantee and beyond.** Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin. Adalwyd o https://researchbriefings.files.parliament.uk/documents/CBP-9714/CBP-9714.pdf

Butler, S. (2023). **Tesco boss: food inflation has probably peaked but prices will stay high**. The Guardian, 16 Mehefin 2023. Adalwyd o https://www.theguardian.com/business/2023/jun/16/tesco-boss-food-inflation-has-probably-peaked-but-prices-will-stay-high

Dey-Choudhury, S. ac Ubovic, S. (2023). **Food and energy price inflation, UK: 2023**. Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. Adalwyd o https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/articles/foodandenergypriceinflationuk/2023

Emediegwu, L. (2022). **How is the war in Ukraine affecting global food prices**? Economics Observatory. Adalwyd o https://www.economicsobservatory.com/how-is-the-war-in-ukraine-affecting-global-food-prices

FAO. (2023). **FAO Food Price Index**. 7 Gorffennaf 2023. Adalwyd o https://www.fao.org/worldfoodsituation/foodpricesindex/en/

Ffederasiwn Busnesau Bach. (2023). **Urgent call to energy suppliers: Renegotiate fixed contracts for small businesses on market-peak tariffs**. Adalwyd o https://www.fsb.org.uk/resources-page/urgent-call-to-energy-suppliers-renegotiate-fixed-contracts-for-small-businesses-on-market-peak-tariffs.html

Gosden, E. (2023). **Hospitality sector splashes out on pay increases.** The Times, 22 Mai 2023. Adalwyd o https://www.thetimes.co.uk/article/hospitality-sector-splashes-out-on-pay-increases-3h2sgjbdv

Hacking, V. (2023). **State of the Market 2023: Local authority catering services**. APSE. Adalwyd o https://apse.org.uk/index.cfm/apse/members-area/briefings/2023/23-26-state-of-the-market-local-authority-catering-services/

LACA. (2022). **LACA Calls for UIFSM & FSM increases due to rising food costs**. Adalwyd o https://laca.co.uk/news/laca-calls-uifsm-fsm-increases-due-rising-food-costs

Llywodraeth Cymru. (2021). **Y Cytundeb Cydweithio**. Adalwyd o https://www.llyw.cymru/y-cytundeb-cydweithio-2021

Y Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth. (2023). **GB Fertiliser prices**. 7 Mehefin 2023. Adalwyd o https://ahdb.org.uk/GB-fertiliser-prices

Yr Adran Diogeledd Ynni a Sero Net. (2023). **Quarterly Energy Prices: UK October to December 2022 and annual data for 2022.** Adalwyd o https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/1146323/quarterly-energy-prices-march-2023.pdf

Y Swyddfa Ystadegau Gwladol. (2023). **Consumer price inflation, UK: June 2023**. Adalwyd o https://www.ons.gov.uk/economy/inflationandpriceindices/bulletins/consumerpriceinflation/june2023



## Rhagor o wybodaeth

Mae ein hadolygiad o'r dystiolaeth ar gael yma: https://wcpp.org.uk/cy/cyhoeddi/brydau-ysgol-am-ddim

## Am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi tystiolaeth a chyngor annibynnol o ansawdd uchel i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sy'n eu helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi.

Mae'r Ganolfan, sy'n cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith Beth sy'n Gweithio y DU.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:

**Jack Price**

+44 (0)29 2087 5345

jack.price@wcpp.org.uk

**Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru**

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ

**Wales Centre for Public Policy**

Cardiff University, Sbarc/Spark, Maindy Road, Cardiff CF24 4HQ

www.wcpp.org.uk | 029 2087 5345

info@wcpp.org.uk | @WCfPP

Cardiff University / Prifysgol Caerdydd

UKRI Economic and Social Research Council

Llywodraeth Cymru / Welsh Government